



Dywedir yn aml bod plant yn gyffredinol yn ceisio ymbellhau cymaint â phosibl oddi wrth swyddi eu rhieni, felly byddai cael dau riant sy'n athrawon yn awgrymu y gallai Cadi fod wedi dilyn trywydd gwahanol mewn bywyd.

Ond o oedran ifanc cafodd ei denu tuag at ieithoedd ac roedd yn awyddus i drosglwyddo'r diddordeb hwnnw i eraill.

"Nid yw'n syndod bod yr iaith wedi bod yn bwysig i mi ar ôl cael fy magu ar aelwyd Gymraeg. Ond mae iaith ynddi'i hun wastad wedi apelio ataf ac yn yr ysgol roeddwn i'n mwynhau Saesneg a Ffrangeg yn yr un modd - roeddwn i'n hoffi ystyried sut mae iaith yn cael ei ffurfio a sut rydyn ni'n ei defnyddio i gyfathrebu."

Wrth symud ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth dim ond cryfhau wnaeth dyhead Cadi i rannu ei chariad at yr iaith, boed hynny fel swyddog dysgwyr Cymraeg undeb y myfyrwyr neu ar y cae chwarae fel is-gapten tîm rygbi'r Geltaidd.

Ymgwymerodd hefyd â rôl allgyrsiol gyda'r Mudiad Meithrin, yn helpu rhieni di-Gymraeg i ddatblygu eu defnydd o'r iaith i gefnogi eu plant.

Erbyn hyn nid oedd unrhyw amheuaeth ei bod eisiau bod yn athrawes lawn amser, felly yn ôl â hi i'r gogledd ar gyfer cwrs TAR.

"Roeddwn i'n gwybod yn fy nghalon fy mod i eisiau dod o hyd i waith yn agos at fy nghartref, felly es i i Fangor i wneud TAR a mwynhau cyfnodau o hyfforddi yn Ysgol Botwnnog ac Ysgol Brynrefail, lle mae gen i bellach swydd lawn amser."

Cafodd COVID effaith ar hyfforddiant Cadi, ond roedd hi'n ffodus ei bod wedi sicrhau swydd addysgu cyn y cyfnod clo cyntaf ac mae bellach yn mwynhau ei blwyddyn gyntaf fel athrawes newydd gymhwyso (ANG).

"Rydw i wedi bod yn lwcus iawn i gael swydd mewn maes sydd mor bwysig a difyr, yn dysgu pwnc rwy'n teimlo mor angerddol amdano. Cyn bo hir byddaf hefyd yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau bugeiliol fel pennaeth blwyddyn 7, a gyda chwricwlwm newydd cyffrous ar y ffordd, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr i gynnig cyfleoedd trawsgwricwlaidd i'n dysgwyr."

A beth am gyngor Cadi ar gyfer unrhyw ddarpar athrawon:

"Byddwn yn annog unrhyw un i fynd i addysgu - mae mor ddiddorol ac amrywiol, mae pob diwrnod yn wahanol ac ar yr un pryd mor werth chweil. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig."